# Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Casnewydd Fyw wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd sy'n agored i bawb, gan wireddu egwyddorion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Bydd y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu darparu drwy'r weledigaeth a'r gwerthoedd sy'n rhan annatod o arferion gwaith y sefydliad o ddydd i ddydd.

**Y Sefyllfa Bresennol**

Mae Casnewydd Fyw wedi datblygu partneriaethau â sefydliadau cenedlaethol a lleol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Datblygwyd y projectau hyn mewn ymateb i arolygon cenedlaethol a blaenoriaethau cenedlaethol. Gellir amlygu'r dirwedd bresennol fel a ganlyn.

| Maes a ddadansoddwyd | Poblogaeth Casnewydd | Gweithlu Casnewydd Fyw | Aelodau/cwsmeriaid hamdden Casnewydd Fyw |
|---|---|---|---|
| Rhyw | Gwrywaidd 49%<br>Benywaidd 51%<br>(Stats Cymru 2016) | Gwrywaidd 43%<br>Benywaidd 57% | Gwrywaidd 51.48%<br>Benywaidd 48.27%<br>Heb ddatgan 0.25% |
| Oedran | 15-19 8.26%<br>20-24 8.44%<br>25-29 9.39%<br>30-34 9.16%<br>35-39 8.65%<br>40-44 8.2%<br>45-49 9.74%<br>50-54 9.73%<br>55-59 8.55%<br>60-64 6.89%<br>65-69 7.3%<br>70-74 5.7%<br>(Stats Cymru 2016 – yn seiliedig ar y boblogaeth o oedran gweithio) | 15-19 15%<br>20-24 22%<br>25-29 12%<br>30-34 11%<br>35-39 6%<br>40-44 9%<br>45-49 7%<br>50-54 7%<br>55-59 8%<br>60-64 2%<br>65-69 1%<br>70-74 0% (1 aelod o staff) | 15-19 21.32%<br>20-24 16.35%<br>25-29 12.43%<br>30-34 9.31%<br>35-39 7.37%<br>40-44 5.79%<br>45-49 5.63%<br>50-54 4.72%<br>55-59 3.54%<br>60-64 3.92%<br>65-69 5.15%<br>70-74 4.47% |
| Ethnigrwydd | Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd 0.8%<br>Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd 2.1% | Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd 0.4%<br>Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd 0% | Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd 0.81%<br>Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd 1.21% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd 1.2%<br><br>Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Arall 0.9%<br><br>Du neu Ddu Prydeinig - Affricanaidd 1.0%<br><br>Du neu Ddu Prydeinig - Caribïaidd 0.5%<br><br>Du neu Ddu Prydeinig - Arall 0.2%<br><br>Tsieinëeg neu Arall - Tsieinëeg 0.4%<br><br>Cymysg - Arall 0.3%<br><br>Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd 0.2%<br><br>Cymysg - Gwyn a Du Caribïaidd 0.9%<br><br>Cymysg - Gwyn ac Asiaidd 0.5%<br><br>Gwyn - Prydeinig (Cymreig, Seisnig) 87%<br><br>Gwyn - Gwyddelig - 0.5%<br><br>Gwyn - Arall 2.4%<br><br>Grŵp Ethnig Arall - 1.0%<br><br>(Cyfrifiad 2011 - yn seiliedig ar y boblogaeth gyfan) | Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd 0%<br><br>Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Arall 0%<br><br>Du neu Ddu Prydeinig - Affricanaidd 1.1%<br><br>Du neu Ddu Prydeinig - Caribïaidd 0.4%<br><br>Du neu Ddu Prydeinig - Arall 0%<br><br>Tsieinëeg neu Arall - Tsieinëeg 0.4%<br><br>Cymysg - Arall 0.4%<br><br>Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd 0.7%<br><br>Cymysg - Gwyn a Du Caribïaidd 0.4%<br><br>Cymysg - Gwyn ac Asiaidd 0%<br><br>Gwyn - Prydeinig (Cymreig, Seisnig) 93.9%<br><br>Gwyn - Gwyddelig 0.7%<br><br>Gwyn - Arall 1.8%<br><br>Grŵp Ethnig Arall - 0% | Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd 0.38%<br><br>Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Arall 0.12%<br><br>Du neu Ddu Prydeinig - Affricanaidd 0.58%<br><br>Du neu Ddu Prydeinig - Caribïaidd 0.34%<br><br>Du neu Ddu Prydeinig - Arall 0.02%<br><br>Cymysg Du - 0.61%<br><br>Tsieinëeg neu Arall - Tsieinëeg 0.35%<br><br>Cymysg - Arall 0.25%<br><br>Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd 0.03%<br><br>Cymysg - Gwyn a Du Caribïaidd 0.05%<br><br>Cymysg - Gwyn ac Asiaidd 0.05%<br><br>Gwyn - Prydeinig (Cymreig, Seisnig) 85.93%<br><br>Gwyn - Gwyddelig 0.18%<br><br>Gwyn - Arall 0.13%<br><br>Grŵp Ethnig Arall - 8.95% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Anabledd | Anabl - 15%<br>Ddim yn anabl - 85%<br>(Stats Cymru 2011 – yn seiliedig ar bobl anabl o oedran gweithio) | Anabl - 2.2%<br>Ddim yn anabl - 97.8% | Heb ei gasglu |

### Deddfwriaeth cydraddoldeb ac amcanion cydraddoldeb

Mae'r ddeddfwriaeth ganlynol yn darparu'r fframwaith a'r cyfeiriad ar gyfer y polisi ac yn effeithio ar bob aelod o'r cyhoedd, cwsmeriaid, staff a phartneriaid cyflawni: Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Dyletswyddau Statudol (Cymru) 2011, Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

### Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn cynnwys pawb, gan gynnwys staff a chwsmeriaid. Mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn unigolyn ar sail unrhyw un o'r 9 nodwedd warchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, dyma'r nodweddion:

- ailbennu rhywedd
- anabledd
- beichiogrwydd a mamolaeth
- crefydd neu gred
- cyfeiriadedd rhywiol
- hil
- oedran
- priodas a phartneriaeth sifil
- rhywedd

Mae'r dyletswyddau cydraddoldeb, yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, yn sicrhau bod y cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus yn well. Mae'r dyletswyddau fel a ganlyn:

- Hyrwyddo cyfle cyfartal
- Hyrwyddo cysylltiadau cymunedol da
- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth

### Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae cyswllt anorfod rhwng Hawliau Dynol a Chydraddoldeb. Mae cydraddoldeb yn cael ei drin fel hawl ddynol sylfaenol, o'r egwyddor o barch cyfartal i urddas cynhenid pawb.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith. Mae Casnewydd Fyw yn gweithio gyda Chyngor Dinas Casnewydd i roi cynllun gweithredu ar waith sy'n darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion presennol ond sy'n ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Bydd Cynlluniau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys

y 7 nod llesiant a byddant yn llywio'r Amcanion Cydraddoldeb. Gweithredwyd y cynlluniau Llesiant ym mis Ebrill 2018.

Y 7 Nod Llesiant yw:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg**

Gweithredwyd Safonau'r Gymraeg ym mis Mawrth 2016. Mae'n ofynnol i Gasnewydd Fyw cydymffurfio â'r Safonau fel gwasanaeth a gomisiynir gan Gyngor Dinas Casnewydd. Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru ac mae gan siaradwyr Cymraeg hawliau iaith i dderbyn gwasanaethau Cymraeg oddi wrth gyrff cyhoeddus. Ni ellir trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. (Ceir mwy o fanylion am weithredu Safonau'r Gymraeg yn y Polisi Cymraeg)

**Amcanion Cydraddoldeb**

Datblygwyd amcanion Cydraddoldeb Casnewydd Fyw er mwyn bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, o dan fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

| Nodau Lles | Amcanion Cydraddoldeb |
|---|---|
| **Cymru Iachach** | **Gwella mynediad i wasanaethau**<br><br>Gall pobl gael gafael ar holl wasanaethau Casnewydd Fyw y mae eu hangen arnynt o ran mynediad corfforol a mynediad at gyfathrebu ac ati.<br><br>**Hyrwyddo gweithgareddau'n gadarnhaol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau**<br><br>Bydd Casnewydd Fyw yn cynnig gweithgareddau wedi'u targedu ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchodedig, na fyddent fel arfer yn cymryd rhan, gan leihau rhwystrau a'r nod o leihau anghydraddoldeb. |
| **Cymru sy'n fwy Cyfartal** | **Ymgysylltu**<br><br>Bydd pobl yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau sy'n effeithio arnynt.<br><br>**Amrywiaeth yn y Gweithle**<br><br>Bydd gweithlu a bwrdd Casnewydd Fyw yn gynrychioliadol o'r boblogaeth, yn enwedig o ran rhyw ac ethnigrwydd. |

| | |
|---|---|
| **Cymru o Gymunedau Cydlynus** | **Cydlyniant Cymunedol, Gweithgareddau Dargyfeiriol a mynd i'r afael â throsedd**<br><br>Bydd Casnewydd Fyw yn cyflwyno rhaglenni sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac yn eu cefnogi i gymryd rhan mewn dewisiadau amgen cadarnhaol. |
| **Cymru â Diwylliant Bywiog lle Mae'r Gymraeg yn Ffynnu** | **Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg**<br><br>Bydd Casnewydd Fyw yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn datblygu ei gwasanaethau dwyieithog ac yn cynyddu lefel sgiliau iaith Gymraeg ei gweithlu. (Gweler y Polisi Iaith Gymraeg am fanylion)<br><br>**Amrywiaeth o Weithgareddau Diwylliannol a chynulleidfaoedd**<br><br>Bydd Casnewydd Fyw yn cyflwyno ac yn cynnal perfformiadau sy'n gynrychioliadol o'r boblogaeth ac yn targedu cynulleidfaoedd newydd na fyddent fel arfer yn mynychu'r theatr. |

**Cwsmeriaid a Chynulleidfaoedd**

**Yr egwyddor o Wasanaethau Hygyrch**

Mae gwasanaethau Casnewydd Fyw yn agored i bawb. Ni fydd Casnewydd Fyw yn gwahaniaethu wrth ddarparu gwasanaethau, a bydd mynediad at wasanaethau o'r un ansawdd i bawb.

Mae rhai gwasanaethau wedi'u targedu at bobl sydd angen mwy o gymorth neu gymorth gwahanol, er enghraifft pobl sydd ag anabledd. Mae modd addasu gwasanaethau eraill fel y gellir eu darparu i ddiwallu anghenion diwylliannol neu gymdeithasol pobl o fewn y ddarpariaeth brif ffrwd.

**Sut rydym yn cynnig gwasanaethau**

Bydd Casnewydd Fyw yn sicrhau bod y bobl sydd angen ein gwasanaethau:

- Yn gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael
- Yn gwybod sut i wneud cais amdanynt
- Yn gallu cael gafael arnynt yn hawdd
- Bydd Casnewydd Fyw yn rhoi addasiadau ar waith, lle bo'n bosibl ac mae'n ymarferol gwneud hynny, er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar wasanaethau.
- Mae'r effaith ar y cwsmer yn bwysig iawn o ran penderfynu beth sy'n rhesymol.

**Gweithred Bositif**

Gall Casnewydd Fyw cymryd camau cadarnhaol cymesur i fynd i'r afael ag anfanteision a wynebir gan bobl o nodwedd warchodedig, neu le y byddai'n galluogi neu'n annog cyfranogiad gan grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol. Enghraifft o hyn yw sesiynau nofio i ferched yn unig.  Bydd Casnewydd Fyw yn casglu tystiolaeth cyn cymryd camau cadarnhaol.

**Cyfathrebu**

Mae Casnewydd Fyw yn cydnabod Iaith Arwyddion Prydain fel iaith yn ei hawl ei hun. Byddwn yn defnyddio dehongliad a recordiadau Iaith Arwyddion Prydain yn gynyddol ac yn hyfforddi staff perthnasol mewn cydraddoldeb byddar a sgiliau Iaith Arwyddion Prydain. Mae yna amserlen wedi'i disgrifio'n glywedol ar gyfer perfformiadau a nodwyd, fel y Pantomeim a dangosiadau sinema ar nos Fawrth.

**Partneriaethau**

**Cydweithio** a **Chyfranogiad** yw dwy o egwyddorion datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd gweithio mewn partneriaeth yn helpu Casnewydd Fyw i ddylunio a darparu gwasanaethau o amgylch y cwsmer a'r gymuned. Fel aelod o bartneriaeth bydd Casnewydd Fyw yn hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg ym mhob peth a wna, ac yn cefnogi partneriaid i wneud hynny hefyd.

**Ymgysylltu**

Mae Casnewydd Fyw yn ymgynghori ac yn cynnwys rhanddeiliaid-defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr, a phartneriaid i newid neu ddatblygu gwasanaethau.

Mae ystyried barn pobl yn ôl nodweddion gwarchodedig a ffactorau eraill fel tlodi, cymdogaeth, sgiliau ac ati yn rhoi darlun gwell i Gasnewydd Fyw o'r boblogaeth gyfan a'r anghenion. Datblygir rhaglenni i ddiwallu'r anghenion a nodwyd.

Mae Casnewydd Fyw hefyd yn cefnogi'r broses o goladu data cenedlaethol megis Arolwg Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru. Mae hyn yn darparu gwybodaeth werthfawr am y lefelau gweithgarwch presennol a'r galw cudd.

**Canmol a Chwyno**

Mae Casnewydd Fyw yn croesawu canmoliaeth a chwynion ac yn defnyddio sylwadau i geisio unioni pethau, dysgu o gamgymeriadau a gwella gwasanaethau a hefyd ddathlu llwyddiannau a rhoi adborth ar yr ymateb cadarnhaol hwn i staff.

Gall cwsmeriaid a phartneriaid wneud sylwadau naill ai'n uniongyrchol wrth staff y safle, gan ffonio trwy ganolfan gyswllt Casnewydd Fyw ar 01633 656757 neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac e-bost.

Caiff canmoliaeth a chwynion eu monitro er mwyn asesu a yw materion yn ymwneud â chydraddoldeb yn cael eu codi. Bydd y materion sy'n codi yn cael sylw gyda'r camau mwyaf priodol.

Gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth

Mae'r ddeddfwriaeth yn cydnabod y mathau canlynol o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth:

- Gwahaniaethu Uniongyrchol
- Gwahaniaethu Uniongyrchol Cyfunol
- Gwahaniaethu Anuniongyrchol
- Gwahaniaethu sy’n Codi yn Sgil Anabledd
- Aflonyddu
- Erledigaeth

**Sut rydym yn cyflawni'r cynllun**

**Cyfrifoldeb Strategol**

Mae'r Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol yn gyfrifol am gyfeiriad strategol cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg ar draws y sefydliad. Tîm rheoli Casnewydd Fyw sy'n gyfrifol am reoli a chydlynu'r polisi o ddydd i ddydd.

Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr Casnewydd Fyw yn cydnabod bod gan Gasnewydd boblogaeth amrywiol a manteision byw yng Nghasnewydd drwy allu dewis staff sydd ag ystod eang o sgiliau o bob rhan o'r ddinas. Fel sefydliad, mae Casnewydd Fyw yn ymdrechu'n gyson i sicrhau bod ei broffil staffio yn adlewyrchu'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu. Er mwyn helpu gyda'r ymdrechion hyn, croesewir ceisiadau ar gyfer swyddi Ymddiriedolwyr, waeth beth fo'u hoed, rhyw, cefndir ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred neu anabledd.

**Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)**

Cyn newid y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu neu wrth i broject newydd gael ei weithredu, bydd Casnewydd Fyw yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn asesu'r manteision a'r risgiau i bobl wahanol – yn ôl nodweddion gwarchodedig a'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cyflwyno tystiolaeth o ymchwil, ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

**Monitro'r gwasanaeth a ddarperir**

Mae Casnewydd Fyw yn casglu a dadansoddi gwybodaeth am ddefnydd a barn cwsmeriaid/cynulleidfaoedd am ei gwasanaethau. Mae monitro'r broses o ddarparu gwasanaethau ac effaith darparu gwasanaethau yn rhan o broses rheoli perfformiad y sefydliad.

**Y Cyflogai**

**Cyflogaeth**

Nod Casnewydd Fyw yw anelu at fod yn gyflogwr teg a hyrwyddo diwylliant gweithio cyfeillgar. Heb bobl frwdfrydig, fedrus, wedi'u grymuso, ni all Casnewydd Fyw lwyddo. Bydd Casnewydd Fyw yn creu amgylchedd gwaith iach, diogel a chefnogol lle mae pobl yn cael eu parchu am bwy ydynt a lle mae gweithwyr yn gallu perfformio ar eu gorau.

Bydd Casnewydd Fyw yn gwneud pob ymdrech resymol i fodloni ceisiadau gan weithwyr sy'n ymwneud â nodwedd warchodedig, gan gynnwys gwisg, bwyd, gwyliau, amseroedd gweddïo, patrymau gwaith, gwyliau, cymorth, addasiadau ffisegol ac ati, er mwyn peidio â gwahaniaethu.

Mae Casnewydd Fyw wedi ymrwymo i'r fenter "yn gadarnhaol o blaid pobl anabl" sy'n gwarantu cyfweliad i bobl anabl sy'n bodloni gofynion hanfodol y swydd. Lle bo'n briodol, bydd Casnewydd Fyw yn gwneud newidiadau i amgylchedd a rôl gweithiwr os yw'n anabl. Mae rheolwyr yn gyfrifol am ddarparu amgylchedd gwaith addas sy'n caniatáu i weithwyr wneud eu gwaith.

**Hyfforddiant**

Mae Casnewydd Fyw wedi ymrwymo i helpu arweinwyr, rheolwyr a chyflogeion heddiw i ddeall cydraddoldeb wrth ddatblygu gwell gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r sefydliad yn buddsoddi mewn datblygu cyflogeion ac ymddiriedolwyr yn deg ac yn gyfartal.